# COPA2

## Briff



© Phil Formby WTML

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
ERYRI NATIONAL PARK AUTHORITY

**eryri.llyw.cymru**

Coedwigoedd Glaw Celtaidd Cymru
Celtic Rainforests Wales



## Cefndir

Mae gennych gyfle unigryw i lunio dyfodol Eryri, ac rydym yn eich gwahodd i fod yn rhan ohono!

Yn sgil llwyddiant COPA1, sef y gynhadledd cyntaf o'i math i bobl ifanc yn Eryri - rydym yn eich gwahodd i gyflwyno cais i fod yn rhan o COPA2 a gynhelir ar y 3ydd a 4ydd o Ragfyr 2026. Bydd y gynhadledd yn cael ei chynnal dros ddau ddiwrnod gan gynnwys aros dros nos ym Mhlas Dol-y-Moch, Maentwrog, ac eleni bydd y ffocws ar y goedwigoedd glaw Celtaidd.

## Pwy all gymryd rhan?

Mae'r gynhadledd wedi'i hanelu'n benodol at ddisgyblion Blwyddyn 7 ac 8 (a fydd yn Flynyddoedd 8 a 9 erbyn Rhagfyr 2026). Croesawn sawl cais o bob ysgol, ond mae nifer cyfyngedig o lefydd ar gael.

Mae'r digwyddiad yn rhad ac am ddim i ddisgyblion ac athrawon, gyda threfniadau ar gael i ad-dalu unrhyw gostau llanw.

## Pam cymryd rhan?

Drwy ymuno â'r gynhadledd hon, mae eich ysgol yn gallu grymuso myfyrwyr i:

- feithrin dealltwriaeth ddyfnach o goedwigoedd glaw Celtaidd a'u harwyddocâd yn ein byd heddiw
- archwilio datrysiadau creadigol ac arloesol
- godi ymwybyddiaeth o gadwraeth
- ysbrydoli eraill drwy brosiectau ystyrlon

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwch yn derbyn gwahoddiad i gynhadledd ieuenctid, COPA2 ym Mhlas Dol-y-Moch ar 3ydd a 4ydd o Ragfyr 2026. Bydd gennych gyfle unigryw i:

- Aros dros nos mewn lleoliad hyfryd , yng nghanol natur Eryri.
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau diddorol a rhyngweithiol sy'n addysgiadol ac yn hwyl, gan gynnwys gweithgareddau awyr dywyll a chadwraeth.
- Cwrdd â myfyrwyr eraill o Eryri, rhannu syniadau, a gweithio gyda'ch cyd-ddisgyblion i archwilio a diogelu coedwigoedd glaw Celtaidd.

## Canllawiau i athrawon

- Mae modd addasu'r dasg yma i siwtio eich dosbarth, maes dysgu a phrofiad neu ddysgwyr.
- Cewch gyflwyno'r dasg mewn unrhyw gyfrwng sy'n siwtio'r unigolion neu grŵp – boed yn gelf, fideo, poster, taenlen/ graffiau neu adroddiad (mwy o wybdoaeth isod).
- Gellir cyflwyno'r gwaith yn Gymraeg neu Saesneg

Os hoffech gymryd rhan, ond ddim yn siŵr ble i ddechrau neu eich bod angen mwy o arweiniad, mae croeso ichi gysylltu â: copa@eryri.llyw.cymru neu mae rhestr o adnoddau ychwanegol defnyddiol isod.

COPA2

# **Tasg:** Arolwg Coetiroedd ac Asesiad Bywyd Gwyllt

## Amcan:

Er mwyn deall beth sydd mewn coetir, asesu ei gyflwr, ac archwilio sut mae'n cynnal bywyd gwyllt. Cam cyntaf pwysig yw casglu gwybodaeth a chyflwyno eich canfyddiadau'n greadigol. Bydd hyn yn helpu i ddiogelu ei rinweddau arbennig am genedlaethau.

## Tasg

**Dewiswch ofod gwyrdd sy'n cynnwys coed:** - Dewiswch ofod gwyrdd sy'n cynnwys coed y gallwch ymweld â nhw'n ddiogel. Er enghraifft, gallai hyn fod yn goetir, parc, mynwent, gwrych neu goeden aeddfed ar ei phen ei hun. Os na allwch ymweld â safle yn gorfforol am unrhyw reswm, cysylltwch â copa@eryri.llyw.cymru a gallwn gefnogi eich cais.


















**Cynnal eich arolwg syml eich hun:** Casglwch wybodaeth am nodweddion eich man gwyrdd dewisol. Gallech gynnwys:

- Sut mae'r gofod gwyrdd yn gwneud i chi deimlo?
- Beth allwch chi ei weld, ei arogli, ei glywed ac ati?
- Beth yw'r mathau o goed a phlanhigion y gallwch chi eu gweld
- Arwyddion bywyd gwyllt (adar, pryfed, mamaliaid) e.e. synau, olion traed, baw, plu, esgyrn ac ati.
- Tystiolaeth o effaith ddynol (llwybrau, sbwriel, aflonyddwch)
- Amcangyfrifwch oedran posibl y goeden/goedlan (h.y. hynafol, sefydledig, neu newydd ei phlannu)

***Os nad ydych chi'n siŵr am yr uchod, mae adnoddau i'ch helpu i adnabod coed a bywyd gwyllt isod.***

**Cofnodwch eich arsylwadau:** Defnyddiwch unrhyw ddull rydych chi'n ei hoffi gan gynnwys nodiadau, brasluniau, diagramau, lluniau, offer digidol. Meddyliwch yn greadigol! Er enghraifft, gallech chi wneud map syml o'r coedlan, neu golaj yn dangos gwahanol arwyddion bywyd gwyllt.

**Gallwch ystyried y cwestiynau hyn:**

- Pam mae'r man gwyrdd hwn yn bwysig i'r ardal hon?
- Ydych chi'n defnyddio'r man gwyrdd? Sut?
- Sut mae'r man gwyrdd yn gwneud i chi deimlo?
- Pa ardaloedd sydd fwyaf cefnogol i fywyd gwyllt? Pam?
- A oes arwyddion o fygythiadau i'r man gwyrdd?
- Sut mae oedran y man gwyrdd yn effeithio ar yr hyn a welwch?
- Meddyliwch am ffyrdd o wella cyflwr y man gwyrdd ar gyfer bywyd gwyllt i'w helpu i ffynnu yn y dyfodol?

**Cyflwynwch eich canlyniadau yn greadigol:**

Rhannwch yr hyn wnaethoch ei ddarganfod mewn ffordd glir a diddorol. Gallech:

- Greu poster darluniadol neu infograffig
- Gwneud fideo byr neu sioe sleidiau
- Dylunio model 3D neu arddangosfa ryngweithiol
- Adeiladu map digidol gyda'ch arsylwadau

## Cyflwyno'r syniad

Danfonwch eich cais i copa@eryri.llyw.cymru

Neu yn y post i

COPA2,

Swyddfeydd Parc Cenedlaethol Eryri,

Penrhyndeudraeth,

LL48 6LF

**Pob lwc!**

**Dyddiad cau: 10/7/26**